

PENNANT (TEULU), Penrhyn, ger Llandegai

Arian India'r Gorllewin a sylfaenodd Iwyddiant a ffortiwn y teulu; drwy briodas John Pennant a Bonella Hodges yn 1734 cyfunwyd dwy stad yn codi siwgr yn yns Jamaica, plwyf Clarendon (gan mwya); cafodd John Pennant fendifithion ychwanegol, eto yn Jamaika, drwy ewyllys ei prawd Samuel yn 1749, gw̄r a fu unwaith yn arglywydd faer Llundain. Nid oedd ryfedd, felly, i'w fab Richard briodi (yn 1765) ag aeres teulu Warburtons o Winnington yn sir Gaerleon, a etifeddasai un hanner o stad y Penrhyn; yn 1785 cwplaodd brynnant oddi wrth deulu Yonge o Ddyfnaint a etifeddasai'r hanner arall, a chyd-asio'r 'Warburton-Yonge moieties' y sonnir cymaint amdanyst ym llyfrau'r stad yn hanner cyntaf y 18fed ganrif. Nid dyn dod a dinod oedd John Pennant y tad; yn hytrach, tarddai o gyff enwog Pennantiaid Bychtwn Downing yn Sir y Fflint, ac yr oedd yn aelod o'r un teulu, os o gangen ieuengach, â Thomas Pennant y teithiwr. Taid John Pennant, o'r enw Gifford Pennant, a fudodd i'r Gorllewin yng nghyfnod y Weriniaeth, prynau darnau helaeth o dir yn Jamaika, a marw yn 1677. Ymfalchmai Thomas Pennant yn ei berthynas a pherchenhogg newydd y Penrhyn, a mynnai fod y Pennantiaid hyn yn perthyn o bell i hen deulu gwreiddiol y lle, sef teulu'r tri Siambrelion a Pirs Griffith, drwy briodas un ohonynt, o gwmpas 1475-80, ag Angharad, merch Gwilym ap Gruffydd ap Gwilym o'r Penrhyn; ond nid hawdd cysoni hyn â helyntion Angharad a groniclir mewn tablau achau eraill. Yr oedd sicrach tir o lawer gan wraig Richard Pennant i brofi ei bod yn ddisgynydd pell o deulu Cochwillan, ac o Robin, brawd Gwilym ap Gruffydd ap Gwilym.

RICHARD PENNANT (1737? - 1808)

Beth bynnag am y gwir gyswilt rhwng yr hen a'r newydd, nid oedd ddadl am bersonoliaeth bwerus Richard Pennant. Bywiogodd weithgarwch chwarel Cae-braich-y-cafn, cafodd (yn 1786) les ar dir Pen-y-bryn gan yr esgob Warren i godi'r cei, datblygodd y fasnach mewn llechi ysgrifennu, codi melinau llifio yng Nghoed-y-parc (cerrig llechi) a Nant Gwreiddiog (cerrig caled); llawni brwdyfrydedd gyda gwneud ffورد newydd o Fangor i Gapel Curig, heblaw cadw golwg fanwl ryfedol ar weithrediadau ei wyddodion ar y stadau siwgr yn Jamaica. Yn 1783 gwnaed ef yn arglywydd, ond cofier mai 'Irish peer' ydoedd, à'r hawl ganddo i eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin ped etholiad ef; bu'n aelod seneddol dros Lerpwl am gyfnod, a chamgymeriad mawr ei fywyd oedd ceisio (yn 1796) gipio cynrychiolaeth sir Gaernarfon oddi ar Syr Robert Williams, hanner brawd yr arglywydd Bulkeley o Ffwmars, heb gofio am nerthoedd mawrion y Bwcleaid yn y ddwy Arllechwedd, yn nhrefi Conwy a Chaernarfon, ac yn ardal Nant y Betws. Cafodd gurfa dost. Bu farw 21 Ionawr 1808.

Dilynwyd ef gan ei gefnder, a hwnnw gan ei fab-yn-gnhyfraith

EDWARD GORDON DOUGLAS (1800 - 1886)

Ganwyd 0 Mehefin 1800; aelod o deulu pendefigaidd Douglas yn Sgotland (aeth y Pennant, drwy warant y frenhines, yn Douglas Pennant yn 1841), a godwyd yn arglywydd Penrhyn yn 1866 â hawl gando i eistedd yn Nhŷ'r Arglywyddi. Cyn hynny bu'n aelod dros sir Gaernarfon am chwarter canrif. Bu farw 31 Mawrth 1886. Ei fab ef, yr ail farwn (1836 - 1907), ganwyd 30 Medi 1836, a gollodd lecsiwun enwog 1868 i Syr Love Parry, ond a enillodd y sedd yn ei hôl yn 1874; ef hefyd, er yn feistr tir gyda'r gorau yn y wlad, oedd mewnn rhyw anghydfod parhaus â chwarelwyr Bethesda. Bu farw 10 Mawrth 1907.

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 103, 184-7, 214

Thomas Pennant, *The history of the parishes of Whiteford and Holywell* (London 1796), 268-72

A Tour (Tours) in [North] Wales (1810), iii, 85-7

The Complete Peerage of England, Scotland, Ireland, Great Britain, and the United Kingdom (1887-1898), x, 431-3

Llawysgrifau Penrhyn yng Ngholeg y Gogledd, Bangor (U.C.N.W.) 421-56, 464-592, 1182-1489

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Barwn Penrhyn

Erthygl Wicipedia: Richard Pennant, Barwn 1af Penrhyn

Erthygl Wicipedia: Edward Gordon Douglas-Pennant, Barwn 1af Penrhyn

Erthygl Wicipedia: George Sholto Gordon Douglas-Pennant, 2il Farwn Penrhyn

Delweddua

Camille Silvy, Lady Louisa Douglas Pennant Lady Penrhyn

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 66035656

Wikidata: Q7328358

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Richards, T., (1953). PENNANT (TEULU), Penrhyn, ger Llandegai. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 16 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PENN-ANT-1734>

Llospaint

clipword

Preifatrwydd a Chwclis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION

